



Mynediad i'r Cynllun Cadw Swyddi – yr wybodaeth ddiweddaraf

Mae'r Llywodraeth wedi cyhoeddi rhagor o fanylion am y Cynllun Cadw Swyddi a fydd yn weithredol am gyfnod cychwynnol o dri mis o 1 Mawrth 2020 ymlaen.

Dylai'r Cynllun fod wrthi'n rhedeg o Ebrill 2020 a bydd yn galluogi i gyflogeion ar seibiant dderbyn 80% o'u cyflog arferol, neu £2,500, pa un bynnag yw'r isaf.

Mae'r Cynllun ar gael o 28 Chwefror 2020 ymlaen i bob cyflogwr sy'n gweithredu'r cynllun Talu Wrth Ennill (TWE) ac sydd â chyfrif banc yn y DU, oherwydd bydd CThEM yn talu'r arian drwy BACS.

Mae'r Llywodraeth wedi ceisio darparu gwybodaeth fwy eglur ynglŷn â phwy yw'r cyflogwyr hynny sy'n gymwys i wneud cais. Maen nhw'n cynnwys y canlynol:

- Busnesau;
- Elusennau;
- **Asiantaethau recriwtio (gweithwyr TWE);** ac
- Awdurdodau cyhoeddus.

Mae'r cyflogeion sy'n gallu gwneud cais yn cynnwys:

- Cyflogeion llawn amser;
- Cyflogeion rhan amser;
- **Cyflogeion sydd ar gontractau asiantaeth;** a
- Chyflogeion sydd ar gontractau 'dim oriau' neu 'oriau hyblyg'.

Mae disgwyl i bob cyflogwr drafod y mater gyda'i staff a gwneud y newidiadau priodol i'w contractau drwy gytundeb. Dylid cyfathrebu hyn i'r cyflogai, a dylid cadw cofnod o'r drafodaeth, fel bod y cyflogai'n gwybod yn glir eu bod ar seibiant.

Efallai y bydd angen gwneud ymgynghoriad ar y cyd yn dibynnu ar y niferoedd perthnasol.

Os bydd cyflogeion ar absenoldeb di-dâl, ni allent gael eu rhoi ar seibiant – heblaw eu bod wedi cael eu rhoi ar absenoldeb di-dâl ar ôl 28 Chwefror.

Os bydd cyflogeion yn absennol oherwydd salwch neu'n eu hynysu eu hunain, byddent yn derbyn tâl salwch statudol – neu beth bynnag sy'n cyfateb iddo – ac yna gellir eu rhoi ar seibiant.

Gall cyflogai sydd â mwy nag un swydd gael ei roi ar seibiant o bob un o'i swyddi.

Os bydd cyflogeion yn gwneud hyfforddiant pan fyddent ar seibiant, mae'n rhaid iddynt dderbyn tâl ar lefel yr Isafswm Cyflog Cenedlaethol / y Cyflog Byw Cenedlaethol o leiaf, hyd yn oed os byddai hyn yn gyfartal â mwy nag 80% o'u cyflogau.

Mae'r rheiny sydd ar absenoldeb mamolaeth, absenoldeb mabwysiadu, absenoldeb gyda thâl oherwydd tadolaeth neu absenoldeb rhiant a rennir yn dal i fod yn gymwys am hawliadau statudol sef 90% yn ystod y chwe wythnos gyntaf ac yna 90% neu dâl mamolaeth statudol, pa un bynnag yw'r isaf.

Byddai cynlluniau gwelliant (h.y. y Llyfr Bwrgwyn) wedi eu cynnwys yn y cyflogau y gellir eu hawlio.

Os yw'r tâl yn amrywio, mae nifer o wahanol ffyrdd o gyfrifo'r tâl:

- Os ydyn nhw wedi bod yn gyflogedig ers 12 mis o leiaf, yna'r tâl a gânt fydd yr uchaf o'r rhain:
 - o Yr enillion am yr un mis yn y flwyddyn flaenorol; neu
 - o Enillion misol cyfartalog y flwyddyn dreth 2019-20.
- Os ydyn nhw wedi bod yn gyflogedig am lai na 12 mis, yna byddent yn hawlio'r cyfartaledd o'r enillion misol ers iddyn nhw ddechrau gweithio.
- Os nad oedden nhw wedi dechrau gweithio tan fis Chwefror 2020, yna bydden nhw'n defnyddio sail pro rata ar gyfer yr enillion hyd yn hyn.

Dydy cyfraniadau pensiwn a chyfraniadau yswiriant gwladol y cyflogwr ond yn cael eu hariannu hyd at y lefel o 80%. Os bydd y cyflogwr yn ychwanegu at y cyflogau mae'n rhaid i hyn ddod o arian y cyflogwr ei hun.

Bydd y Llywodraeth ond yn ariannu'r lleiafswm gorfodol o gyfraniadau pensiwn ar gyfer cyflogaeth. Bydd gofyn i gyflogaion dalu cyfraniadau yswiriant gwladol am y cyflogau a delir iddynt, fel y byddent fel arfer.

Mae angen i gyflogwyr wneud cais am 80% o gyflog gwirioneddol y cyflogai cyn treth. Mae'n rhaid iddyn nhw dalu'r hawliad cyfan ac ni allent godi unrhyw ffioedd o'r arian sy'n cael ei roi.

Gall y cyflogaion ailafael â'u dyletswyddau neu gael terfynu eu contractau. Bydd hawliau ganddynt o hyd mewn perthynas â thâl salwch statudol, tâl mamolaeth, iawndaliadau am ddiswyddiad annheg a thaliadau diswyddo.

Er ei bod hi'n ymddangos bod hyn yn symud i'r cyfeiriad cywir i'n haelodau sy'n athrawon cyflenwi a'n haelodau mewn ysgolion annibynnol sydd wedi eu rhoi ar seibiant, mae angen o hyd am eglurder ynghylch yr elfennau canlynol yr ydym yn mynd ar eu holau.

Y diffiniad o 'gyflogai' mewn perthynas ag athrawon cyflenwi fel gweithwyr asiantaeth

Mae gweithwyr a chyflogaion yn fodau ar wahân a phendant mewn perthynas â'u statws cyflogaeth, felly mae angen egluro cwmpas y rheiny sy'n gymwys.

Mae elfennau ansicr yn parhau o hyd mewn perthynas â seibiant. Nid yw'n gwbl eglur a fydd gweithwyr TWE a gweithwyr eraill sydd â threfniadau 'dim oriau' yn gymwys ar gyfer hyn chwaith. Mae hyn yn berthnasol i athrawon cyflenwi sy'n gweithio fel gweithwyr asiantaeth.

Lefel cyfraniadau'r llywodraeth tuag at bensiynau

Efallai y bydd y Cynllun Cadw Swyddi'n talu ddim ond y lefel isaf, a gallai hyn effeithio ar gynlluniau megis y Cynllun Pensiwn Athrawon gyda chyfraniadau gan gyflogwyr o fwy na 3% ar gyfer cofrestriadau awtomatig.

Bydd NASUWT yn parhau i anelu'n frwd at ddatrys y materion hyn.

Yn y cyfamser, dylai athrawon cyflenwi edrych ar dermau eu contractau gyda'u hasiantaethau a chysylltu â'u hasiantaethau i ganfod a ydynt yn defnyddio'r Cynllun Cadw Swyddi ac a fyddent yn gymwys. Os oes problem, cysylltwch â NASUWT.



E-bost: advice@mail.nasuwt.org.uk
Gwefan: www.nasuwt.org.uk